Arwain dyfodol Sgowtio sy'n cael ei lunio gan ieuenctid yng Nghymru

Pecyn Swydd Wag Arweinydd Ieuenctid ScoutsCymru

scouts.org.uk/join
#SgiliauAmOes

Scouts

Amdanom ni

Ymrwymedig i ‘Sgowtio sy’n cael ei lunio gan ieuenctid’

Yn Scouts, rydym yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu Sgiliau am Oes, gan gynnwys hyder i leisio barn, teimlad o hunan-gred, y gallu i wneud gwahaniaeth, a sgiliau arweinyddiaeth gwerthfawr.

Dyna beth y mae Sgowtio sy’n cael ei lunio gan ieuenctid yn ei olygu: sicrhau bod ein mudiad yn cael ei arwain gan bobl ifanc, gan weithio mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr i lunio pob agwedd ar eu profiad sgowtio.

Y gwahaniaeth y byddwch yn ei wneud i bobl ifanc

Mae Arweinwyr Ieuenctid yn helpu pobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed ac yn gwella Scouts er gwell. Byddwch yn gweithio i roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc leisio’u barn a chymryd yr arweiniad – gan ennill sgiliau a phrofiadau sy’n eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Ac yn y broses, byddwch yn dysgu llawer o sgiliau newydd hefyd.

Y swydd wag presennol

Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am **Arweinydd Ieuenctid** i ymuno â ni yn ScoutsCymru. Allwch chi wneud hyn?

Efallai y byddwch yn adnabod y rôl hon fel Comisiynydd Ieuenctid. Fel rhan o broses Trawsnewid Profiad Gwirfoddoli Sgowtio, mae enw'r rôl yn newid i Arweinydd Ieuenctid – ond mae'r ymrwymiad i berson ifanc ddarparu Sgowtio sy'n cael ei lunio gan ieuenctid yr un fath.

Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Byddwch yn wirfoddolwr sy'n gyfrifol am ysgogi sgowtio sy'n cael ei lunio gan ieuenctid ar draws y wlad. Byddwch yn cefnogi gwirfoddolwyr i fod yn ffocysedig ar y bobl ifanc, llywio'r rhaglen, dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gennym yn Scouts, ac arwain.

Byddwch yn 18-25 oed wrth eich penodi ac yn cefnogi gwirfoddolwyr i ymgorffori syniadau a phenderfyniadau pobl ifanc i mewn i sgowtio lleol.

Byddwch yn chwarae rhan allweddol yn arwain a rheoli ScoutsCymru. Mae angen i chi ysgogi gwirfoddolwyr a phobl ifanc.

Dylai cyfrifoldebau'r Arweinydd Ieuenctid amrywio, ond mae'n debygol y byddant yn cynnwys:

- Cynorthwyo i sicrhau bod y rhaglen genedlaethol yn cael ei llunio gan bobl ifanc.
- Creu cyfleoedd hygyrch a gwirioneddol i bobl ifanc roi adborth.
- Hyrwyddo Gwobr Youshape a gwobrau uchaf eraill Scouts.
- Cefnogi Arweinwyr Ieuenctid Ardal yng Nghymru, gan eu dwyn ynghyd i gefnogi ei gilydd, rhannu syniadau, a gweithio tuag at weledigaeth gyffredin.
- Ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc yng Nghymru ac yn sicrhau eu bod yn gwybod am bob cyfle gwahanol sydd ar gael iddynt yn y Scouts, gan gynnwys beth y gallant ei wneud pan fyddant yn troi'n 18.
- Dylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru fel aelod o Dîm Cymru a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan sicrhau bod pobl ifanc a'u lleisiau/barn yn cael eu cadw wrth wraidd penderfyniadau.

Cefnogaeth bob cam o'r ffordd

Byddwch yn cael eich rheoli gan Brif Wirfoddolwr Cymru, a fydd yn eich helpu i bennu amcanion a gweithio gyda chi tuag at wella sgowtio sy'n cael ei lunio gan ieuenctid.
Byddwch yn cael mentora gwych a fydd yn eich helpu i dyfu'n bersonol, yn broffesiynol, ac yn y Scouts. Byddant yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ac ymdopi ag unrhyw heriau byddwch yn eu hwynebu yn ystod eich amser yn ScoutsCymru.

Mae Tîm Ieuenctid y DU a'r Cenhedloedd hefyd yma i'ch cefnogi – gan gynnal cyflwyniadau, digwyddiadau, gweminarau, a mwy. Bydd cefnogaeth ar gael i chi bob amser pan fydd ei angen arnoch.

Beth fyddwch yn ei gael o'r rôl

Mae bod yn Arweinydd Ieuenctid yn gyfle anhygoel. Yn ogystal â helpu i ysgogi sgowtio sy'n cael ei lunio gan ieuenctid yn lleol a rhoi lle i bobl ifanc leisio'u barn, byddwch hefyd yn dysgu llawer o sgilliau newydd, gwneud ffrindiau, a mwynhau llawer o hwyl ar hyd y ffordd.

Byddwch yn cael cyfoeth o brofiad a datblygu sgiliau a fydd yn eich paratoi am oes (ac yn edrych yn ddigon arbenigol ar CV neu gais i'r brifysgol) – pethau fel gwaith tîm, cyfathrebu a threfnu, ond hefyd profiad o lywodraethant, gweithio gyda phobl ifanc, ac arwain eraill.

Ar draws y DU, mae nawr dros 600 o Arweinwyr Ieuenctid yn gwneud pethau anhygoel. Ydych chi'n barod i ymuno â hwy?

"Cais i fod yn Arweinydd Ieuenctid oedd un o'r penderfyniadau gorau a wneuthum erioed. Trwy'r rôl hon, rwyf wedi dysgu cymaint, wedi gweithio guda thîm gwych iawn, a gwneud gwahaniaeth mawr I brofiad pobl ifanc yn y Scouts."

"Er and oeddwn yn meddwl y byddwn yn cael y rôl, penderfynais wneud cais beth bynnag ermwyn. Tair blynedd yn ddiweddarach, rwy'n filch iawn fy mod wedi gwneud hynny. Byddwn yn argymell I bawb sy'n ystyried hyn."

"Yr hyn a'm syndododd fwyaf wrth ddechrau'r rôl oedd y cefnogaeth anhygoel a oedd ar gael gan fy nhîm lleol a chyd-Arweinwyr Ieuenctid eraill. Rwyf wedi gwneud ffrindiau Newydd ac wedi cael cyfle i weithio gyda rhai pobl wych."

"Gwel y gwahaniaeth y mae'r rôl hon yn ei wneud I bobl ifanc yw'r rhan orau. Rwyf wedi gweld pobl ifanc leisio'u barn ac ail-llunio eu profiad sgowtio er gwell – ac nid oes modd imi fod yn fwy ymfalchïol."

Sut y mae'r broses geisio yn gweithio

Gallwch wneud cais am y rôl eich hun gan ddefnyddio'r ffurflen gais neu enwebu rhywun arall gan ddefnyddio'r ffurflen enwebu. Nid oes unrhyw ymrwymiad ar bobl a enwebir i wneud cais oni bai eu bod yn dymuno. Gwneud cais neu enwebu ar-lein:

Gwneud cais eich hun Enwebu rhywun arall

Bydd tîm yn goruchwylio'r broses hon ac yn adolygu'r holl geisiadau ac enwebiadau i wneud penderfyniadau ynghylch pwy i wahodd i fynychu'r cam dewis o'r broses hon. Bydd y broses o ddewis byr yn seiliedig yn gyfan gwbl ar y wybodaeth a roddir gan bob ymgeisydd yn ei ffurflen gais. Dylai pob cais ymdrin â gofynion y rôl, fel y'u disgrifir yn y disgrifiad rôl a'r fanyleb person.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau cyfnod trosglwyddo o hyd at chwe mis gyda'r Arweinydd Ieuenctid presennol ScoutsCymru. Bydd hyn yn ei galluogi i ddysgu am y rôl a ScoutsCymru ac i feithrin perthnasoedd er mwyn sicrhau eu llwyddiant yn eu rôl. Yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn derbyn mentora ac yn gweithio gyda'r Arweinydd Ieuenctid presennol ar y gwaith cynllun ieuenctid.

Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 9am, Dydd Llun, 26ain Chwefror 2024.

Cynhelir cyfweliadau ym mis Mawrth 2024.

Gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, new sgwrs anffurfiol am y swydd wag hon, cysylltwch â:

Callum Jones, Arweinydd Ieuenctid ScoutsCymru drwy ebostio youthshaped@scoutscymru.org.uk neu gallwch ffonio 01446 795277.

Popeth am y rôl: Arweinydd Ieuenctid ScoutsCymru

Cyflwyniad:

Fel aelod o Dîm Arweinyddiaeth Cymru, mae'r Arweinydd Ieuenctid ScoutsCymru yn gweithio mewn partneriaeth â Phrif Wirfoddolwr Cymru, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ogystal â Tîm Cymru. Diben y rôl hon yw sicrhau bod pobl ifanc rhwng 4-25 oed yn rhan o bob penderfyniad sy'n llywio eu profiad sgowtio. Bydd yr Arweinydd Ieuenctid yn grymuso pobl ifanc i rannu eu syniadau ac yn eu cefnogi i gael llais ystyrlon wrth gynllunio, gweithredu ac adolygu eu rhaglen a'u cyfleoedd.

Yn atebol i:

Prif Wirfoddolwr Cymru

Atebol am:

Aelodau Tîm Ieuenctid ScoutsCymru (os penodir)

Prif gysylltiadau:

Pobl ifanc yng Nghymru, Prif Wirfoddolwr Cymru, Aelodau Tîm Ieuenctid ScoutsCymru (os penodir), Arweinwyr Ieuenctid Ardal, Gwirfoddolwyr Arweinwyr Ardal, Arweinydd Tîm ar gyfer Rhaglen, Pobl, Cynhwysiant a Gwelediad.

Cadeirydd ScoutsCymru, aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i is-bwyllgorau, a staff ScoutsCymru

Tîm Ieuenctid y DU, arweinwyr ieuenctid cenedlaethol eraill

Gofynion penodi:

Rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 18 a 25 oed ar 31 Hydref 2024. Rhaid iddynt gwblhau'r broses benodi'n llwyddiannus (gan gynnwys gwiriad DBS), bod yn gymwys i statws ymddiriedolwr elusen a chwblhau holl hyfforddiant priodol (fel y disgrifir yn y Rheolau ar gyfer Ymddiriedolwyr ac Eglurhadau Ychwanegol y cytuniad) yn ôl y terfyn amser.

Amser sy'n ofynnol:

Fel llawer o rolau yn y Scouts, gall y rôl Arweinydd Ieuenctid fod yn brysur ar adegau. Efallai y bydd llawer o wahanol bethau i'w gwneud, mynychu ac arwain gennych chi mewn rhai wythnosau. Er y bydd yn amrywio, rydym yn amcangyfrif y bydd ymrwymiad amser oddeutu un i ddwy noson yr wythnos ac un penwythnos y mis.

Mae ScoutsCymru yn lle hyblyg i wirfoddoli ac mae modd cyflawni llawer o'r ymrwymiadau hynny gan ddefnyddio offer digidol fel Microsoft Teams ac ebost. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhoi cyfle i chi deithio ar draws Cymru a thu hwnt, cyfarfod â phobl ifanc, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid allanol. Byddwch yn cael cefnogaeth gydag offer a threuliau priodol.

Rydym yn deall y gall bywyd fod yn brysur weithiau, felly os bydd angen i chi stopio neu atal eich gwirfoddoli neu leihau faint o amser a dreulir ar y rôl bob wythnos, byddwn yn eich cefnogi i wneud hyn.

Prif dasgau

- Hyrwyddo, annog ac arwain y ffordd i sicrhau bod sgowtio yng Nghymru yn cael ei lunio'n wir gan bobl ifanc mewn partneriaeth â phobl hŷn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy weithio gyda Phrif Wirfoddolwr Cymru, y Cadeirydd, Arweinwyr Ieuenctid lleol a Tîm Cymru.
- Cefnogi sgowtio sy'n cael ei lunio gan ieuenctid drwy gyflwyno'r rhaglen.
- Mewnosod pobl ifanc a'u lleisiau a'u barn mewn gwneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol.
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr eraill i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn parhau i gael cyfleoedd i ddatblygu.
- Chwarae rôl weithredol ar Fwrdd Ymddiriedolwyr ScoutsCymru ac ar bwyllgorau eraill yn unol â'r anghenion i hyrwyddo pobl ifanc ac i sicrhau eu cynrychioli mewn llywodraeth ScoutsCymru.
- Ymgysylltiad ehangach â gwaith ScoutsCymru.

Nodyn: Fe all rhai o'r cyfrifoldebau hyn gael eu dirprwyo i eraill, gan gynnwys aelodau o Dîm Ieuenctid (os penodir).

Manyleb person

Oedran	
18 -25 oed ar 31 Hydref 2024	Hanfodol
Sgiliau sy'n ofynnol	
Y gallu i weithio gyda phobl ifanc ac oedolion	Hanfodol
Sgiliau cyfathrebu da	Hanfodol
Y gallu i gyfrannu at drafodaethau	Hanfodol
Y gallu i ddylanwadu ar farn eraill	Hanfodol
Y gallu i ymgymryd â chyfrifoldeb a chyrraedd terfynau amser	Hanfodol
Sgilliau cyflwyno a hwyluso rhagorol	Dymunol
Y gallu i arwain ac ysgogi timau	Dymunol
Gwybodaeth sy'n ofynnol	
Dealltwriaeth o strwythur ac egwyddorion ScoutsCymru	Dymunol
Profiad blaenorol o sgowtio	Dymunol
Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg	Dymunol
Ansawdd sy'n ofynnol	
Derbyn polisïau a rheolau The Scout Association	Hanfodol
Parodrwydd i ddod yn aelod, cymryd Addewid The Scout Association, a gwisgo'r wwisg Scout	Hanfodol
Derbyn a hyrwyddo Hanfodion sgowtio a gweithredu'r rhaglen ieuenctid.	Hanfodol
Bod â digon o amser ar gael i ymrwymo i'r rôl	Hanfodol

Os nad ydych yn teimlo eich bod yn bodloni'r holl ofynion a restrir uchod, cysylltwch â ni i drafod o ydych yn addas. Bydd rôl yr Arweinydd Ieuenctid yn caniatáu a hyrwyddo twf personol a fydd yn eich galluogi i gyflawni'r holl fanylebau uchod yn ystod y rôl.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn eich cais am y rôl benodol hon, efallai y byddwn yn rhoi gwybod i chi am rolau eraill sy'n addas.